Y Fframwaith hunan-adolygu

Elfen 5 (Canllawiau)

Datblygiad proffesiynol

Mae'r canllaw yma i'r fframwaith hunan-adolygu yn cynnwys yr holl ddatganiadau y byddwch yn barnu eich ysgol yn eu herbyn ar gyfer Elfen 5. Mae hefyd yn cynnwys cwestiynau ac yn awgrymu ffynonellau o dystiolaeth y gallwch eu hystyried fel cefnogaeth i'ch barnau. Mae fersiwn arall o'r ddogfen hon ar gael ar ffurf ffeil Word, lle mae'r adran gwestiynau wedi ei gyfnewid am ffrâm destun ar gyfer cofnodi eich tystiolaeth eich hunan. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r ddogfen honno cyn bwydo'r wybodaeth i mewn i'r system ar-lein, ond mae'n hanfodol eich bod yn cwblhau'r hunan-adolygiad ar-lein cyn gwneud cais i gael eich asesu ar gyfer y Marc TGCh.

Gellir defnyddio'r canllaw yma i'r fframwaith hunan-adolygu ochr yn ochr â'r disgrifiadau lefel yn Elfen 5 gan Becta i'ch helpu i wneud penderfyniad ynglŷn â'ch sefyllfa yn natblygiad TGCh ar gyfer yr elfen 'Datblygiad proffesiynol'.

Mae Becta yn argymell yn gryf y dylech ddefnyddio'r offer hunan-adolygu ar-lein yn hytrach na'r fersiwn papur.

Ionawr 2009

Elfen 5 - Datblygiad Proffesiynol

5a Cynllunio

Mae'r llinyn hwn yn ymwneud â'r prosesau a ddefnyddir gan yr ysgol i adnabod anghenion datblygu'r unigolyn a'r ysgol gyfan a'r broses gynllunio i gwrdd â'r anghenion hynny. Lle mae hyn yn effeithiol bydd adolygiad rheolaidd a systematig o sgiliau TGCh staff a'u gallu i ddefnyddio'r rheini i gefnogi dysgu ac addysgu yn y dosbarth ac yn eu swyddogaethau proffesiynol eraill, megis paratoad gwersi ac asesu. Bydd cynllunio ar gyfer datblygiad proffesiynol mewn TGCh yn cwmpasu anghenion datblygu unigolyn ond hefyd wedi ei gysylltu'n agos i ddatblygiadau strategol mewn TGCh o fewn yr ysgol.

5a-1 Adnabod sgiliau ac anghenion staff unigol		⇨ cynnydd ⇨					
Mae archwiliad o sgiliau ac anghenion TGCh ein staff yn ...		5	4	3	2	1	
digwydd	byth	☐	☐	☐	☐	☐	systematig
cynnwys sgiliau TGCh personol	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn rheolaidd
cynnwys defnydd dosbarth effeithiol o TGCh	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn rheolaidd
cynnwys technolegau ac arferion newydd	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn rheolaidd
cael eu hadolygu yn erbyn safonau cenedlaethol perthnasol	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn rheolaidd
rhan o reoli perfformiad	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn rheolaidd

Canllawiau / Cwestiynau

- Sut mae'r ysgol yn gwybod pa staff sydd angen datblygiad proffesiynol mewn TGCh, ac ym mha feysydd y maent ei angen?
- Ydy'r ysgol yn defnyddio safonau proffesiynol APADGOS ar gyfer athrawon sy'n asesu anghenion hyfforddiant TGCh?
- Ydy'r ysgol yn defnyddio fframwaith datblygu gyrfa yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygiad (TDA) ar gyfer cefnogi staff i gael mynediad at anghenion hyfforddiant TGC?
- Oes yna archwiliad rheolaidd o anghenion staff mewn perthynas â TGCh?
- I ba raddau y disgwylir i staff adnabod eu hanghenion datblygiad TGCh eu hunain?
- Ydy archwiliadau yn ymdrin â sgiliau TGCh personol, eu defnydd o TGCh ar gyfer dysgu ac addysgu, an ogystal â swyddogaethau proffesiynol eraill?
- I ba raddau y mae adnabod anghenion TGCh yn cychwyn ddim ond trwy ddyfodiad technolegau newydd yn yr ysgol?
- Ydy adnabod anghenion datblygiad TGCh staff wedi ei gysylltu i brosesau rheoli perfformiad yr ysgol?

5a-2 Adnabod anghenion datblygiad TGCh ysgol gyfan		⇨ cynnydd ⇨					
Mae adnabod anghenion datblygiadau TGCh ysgol gyfan ...		5	4	3	2	1	
yn digwydd	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn rheolaidd
wedi ei gysylltu i gynllunio strategol blaenoriaethau'r ysgol	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn llawn
yn cynnwys ffocysu ar ddysgu ac addysgu	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn rheolaidd
yn darparu cyfleoedd ar gyfer arloesi	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn rheolaidd
yn ymateb i dechnolegau ac arferion newydd	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn weithredol

Canllawiau / Cwestiynau

- Sut mae anghenion datblygiad TGCh wedi eu cysylltu i gynllunio ysgol gyfan?
- Ydy anghenion datblygiad TGCh wedi eu cydweddu i flaenoriaethau TGCh yr ysgol, a/neu flaenoriaethau dysg ac addysgu'r ysgol?
- I ba raddau mae cynllun strategol ar gyfer TGCh yr ysgol yn gyrru ymlaen adnabyddiaeth anghenion datblygiad TGCh?

Elfen 5 - Datblygiad Proffesiynol

5a Cynllunio

Tystiolaeth:
Polisi ysgol ar gyfer datblygiad proffesiynol. Archwiliadau o sgiliau staff a defnydd TGCh. Cynllun Datblygu/ Strategol TGCh ysgol gyfan. Cynllun gweithredu perthynol i flaenoriaethau TGCh. Cynllunio cwricwlwm, cyfnod neu gyfnod allweddol. Cynllunio penodol ar gyfer arloesiad/ prosiectau TGCh yn cynnwys technolegau neu arferion newydd. Cynllunio ar gyfer diwrnodau hyfforddiant a datblygiadau perthynol i TGCh. Arsylwadau o sesiynau hyfforddiant mewn swydd. Trafodaethau gyda staff. Targedau rheoli perfformiad. Gwobrau/ cymwysterau TGCh a enillwyd gan staff.

Elfen 5 - Datblygiad Proffesiynol

5b Gweithrediad

Mae'r llinyn hwn yn ymchwilio amrywiaeth a safon darpariaeth a wna'r ysgol ar gyfer datblygiad TGCh staff a sut mae'n cefnogi unigolion a rhannu ymarfer effeithiol. Lle mae'r arferion hyn wedi eu datblygu'n dda, mae ysgolion yn defnyddio amrywiaeth eang o gyfleoedd datblygu wedi eu teilwrio at anghenion unigolion yn ogystal ag anghenion ysgol gyfan. Mae'r fath weithgareddau yn darparu ar gyfer arddull dysgu unigolion, yn digwydd o fewn a/neu tu hwnt i'r ysgol fel sy'n briodol, wedi eu cysylltu'n agos i adnoddau TGCh yr ysgol ei hun ac yn mynd i'r afael â lefelau hyder yr unigolion cysylltiedig. Mae systemau hyfforddi a mentora yn aml yn rhan allweddol o ddatblygiad proffesiynol cynlluniedig, fel y mae systemau ar gyyfer rhannu arfer effeithiol gyda chydweithwyr eraill ac, ar sail cydbwysedd, gydag ysgolion eraill.

5b-1 Cwrdd ag anghenion TGCh ysgol ac unigolion		⇨ cynnydd ⇨					
Mae gweithgareddau datblygiad proffesiynol ar gyfer TGCh yn ...		5	4	3	2	1	
gynlluniedig	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn drwyadl
talu sylw i anghenion yr unigolyn a'r ysgol	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	systematig
defnyddio amrywiaeth o gyfleoedd datblygu sy'n	gyfyngedig	☐	☐	☐	☐	☐	eang iawn
digwydd yn yr	ysgol yn unig	☐	☐	☐	☐	☐	ysgol a thu hwnt
cwrdd â gofynion	ychydig staff	☐	☐	☐	☐	☐	yr holl staff
gosod targedau sy'n berthnasol i reoli perfformiad	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	systematig

Canllawiau / Cwestiynau

- I ba raddau mae cynlluniau datblygiad proffesiynol TGCH wedi eu cysylltu i'r adolygiad a'r dadansoddiad rheolaidd i anghenion staff?
- Oes yna gyfleoedd datblygu sy'n digwydd tu hwnt i'r ysgol, ac os oes, beth mae'r rhain yn gynnwys?
- Sut mae cynlluniau annibynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol mewn TGCh wedi ei gysylltu i gynllunio ysgol gyfan, neu i gynllun strategaeth TGCh yr ysgol?
- Sut mae'r cynllunio ar gyfer datblygiad proffesiynol mewn TGCh wedi eu cysylltu i brosesau rheoli perfformiad yr ysgol?
- Faint o staff sy'n ennill achrediad neu gymwysterau pan fo'n briodol? Sut mae amrywiaeth cyfleoedd datblygu yn cael eu monitro?

5b-2 Ansawdd datblygiad proffesiynol		⇨ cynnydd ⇨					
Mae'n datblygiad proffesiynol ar gyfer TGCh ...		5	4	3	2	1	
yn ystyried adnoddau TGCh presennol a'r dyfodol	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn llawn
wedi ei ffocysu'n dda ac yn berthnasol	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	uchel iawn
yn dod â staff yn rhan ohono	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn llawn
yn effeithiol	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn llawn
yn ymdrin â lefel hyder y staff	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn llawn

Canllawiau / Cwestiynau

- Sut mae'r ysgol yn sicrhau fod safon gweithgareddau datblygiad TGCh yn cwrdd â gofynion a hyder staff unigol?
- Sut mae'r sgol yn sicrhau fod gweithgareddau datblygiad TGCh yn galluogi staff i wneud defnydd effeithiol o'r adnoddau TGCh sy'n bodoli yn yr ysgol?
- Sut mae'r ysgol yn sicrhau fod cyfleoedd datblygiad proffesiynol TGCh yn ystyried unrhyw anghenion mynediad arbennig staff?
- Sut mae'r ysgol yn sicrhau cysylltau rhwng disgwyliadau dysgwr ac anghenion DPP?
- Sut mae'r ysgol yn sicrhau fod cyfleoedd datblygiad proffesiynol TGCh yn ystyried gwahanol

	arddulliau addysgu a blaenoriaethau'r staff sy'n gysylltiedig?

Elfen 5 - Datblygiad Proffesiynol

5b Gweithrediad

5b-3 Hyfforddiant, mentora a chefnogaeth unigolyn		⇨ cynnydd ⇨					
Mae cefnogaeth i unigolyn ar gyfer TGCh ...		5	4	3	2	1	
wedi ei gynllunio	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	systematig
ar gael i	neb o'r staff	☐	☐	☐	☐	☐	yr holl staff
yn gwneud defnydd o gefnogaeth allanol	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn aml
yn cael ei ddarparu i staff mewn ysgolion eraill	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn aml
yn defnyddio ymdriniaethau arloesol	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn aml

Canllawiau / Cwestiynau	
• Pa hyfforddiant neu fentora ar gyfer cefnogaeth TGCh sydd wedi, neu yn digwydd o fewn yr ysgol? • Oes unrhyw hyfforddi neu fentora yn rhan o raglen broffesiynol gynlluniedig?	• Pa gyfran o'r staff sydd wedi bod yn rhan o brosesau hyfforddi a mentora? • Ydy'r ysgol yn gwneud defnydd o gefnogaeth allanol ar gyfer hyfforddi a mentora? • Ydy'r ysgol yn cefnogi, drwy hyfforddiant a mentora, waith gyda staff mewn ysgolion eraill?

5b-4 Rhannu ymarfer effeithiol		⇨ cynnydd ⇨					
Mae rhannu ymarferion effeithiol gyda TGCh ...		5	4	3	2	1	
wedi ei gynllunio	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	systematig
yn digwydd o fewn yr ysgol	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn rheolaidd
yn cynnwys ysgolion eraill	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn rheolaidd
yn defnyddio ymdriniaethau arloesol	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn rheolaidd

Canllawiau / Cwestiynau	
• Pa ymdriniaeth mae'r ysgol ar gyfer rhannu ymarfer effeithiol gyda TGCh? • Pa mor gyson y defnyddir y rhain ar draws ysgol gyfan? • Pa mor rheolaidd ydy'r cyfleoedd i rannu arfer effeithiol?	• Pa gyfleoedd sy'n bodoli i alluogi staff i rannu arfer gydag ysgolion eraill? • Sut y defnyddir technoleg ei hun gan yr ysgol i rannu a dysgu o arfer da yn fewnol ac yn allanol?

Tystiolaeth:
Polisi ysgol ar gyfer datblygiad proffesiynol. Cynlluniau datblygu ysgol gyfan a staff unigol ar gyfer TGCh. Trafodaethau gydag athrawon a staff ategol. Cofnodion datblygiad ysgol a staff unigol ar gyfer TGCh. Arsylwadau ar hyfforddiant mewn swydd ac unrhyw systemau cefnogi monitro. Gwerthusiad ysgrifenedig o hyfforddiant a/neu cyfleoedd datblygiad staff. Cofnodion llywodraethwyr. Gwobrau/ cymwysterau TGCh a enillwyd gan staff.

Elfen 5 - Datblygiad Proffesiynol

5c Adolygu

Mae'r llinyn hwn yn ymwneud â'r rheolaeth cyffredinol a gwerthusiad datblygiad staff ar gyfer TGCh, a sut mae'r deilliannau o hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer cynllunio'r dyfodol. Lle mae arferion wedi eu datblygu'n dda bydd monitro a gwerthuso rheolaidd a systematig o safon y datblygiad proffesiynol ar gyfer TGCh, a'r effaith a gaiff ar ddeilliannau ar gyfer dysgu ac addysgu, a swyddogaeth broffesiynol staff. Bydd cynllunio ar gyfer gweithgareddau datblygiad proffesiynol y dyfodol yn ystyried y gwerthusiadau hyn a byddant yn cael eu hadolygu mewn perthynas â gwerth am arian a'r effaith ar ddeilliannau disgyblion.

5c-1 Monitro a gwerthuso		⇨ cynnydd ⇨					
Mae monitro a gwerthuso effaith datblygiad TGCh staff ...		5	4	3	2	1	
wedi ei gynllunio	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	systematig
wedi ei gysylltu i ddysgu ac addysgu	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	trwyadl
yn arddangos gwerth da am arian	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	trwyadl
yn cyfarwyddo cynllunio'r dyfodol ar gyfer datblygiad proffesiynol	minimal	☐	☐	☐	☐	☐	trwyadl
wedi'i gysylltu i ddeilliannau disgyblion	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	trwyadl
wedi'i gysylltu i effaith ar y sefydliad	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	trwyadl

Canllawiau / Cwestiynau

- Pa systemau mae'r ysgol yn eu defnyddio ar gyfer monitro a gwerthuso effeithiolrwydd datblygiad proffesiynol TGCh?
- Sut mae'r ysgol yn cysylltu deilliannau gwerthuso i ddysgu ac addysgu?
- Sut mae'r ysgol yn cysylltu gweithgareddau datblygiad proffesiynol TGCh i welliannau mewn effeithiolrwydd trefniadaeth?
- Pa newidiadau mewn arfer TGCh neu ddeilliannau disgybl y gall yr ysgol briodoli i weithgareddau datblygiad proffesiynol TGCh?
- Pa gysylltau cytbwys gydag ysgolion eraill sydd gan yr ysgol wrth werthuso datblygiad proffesiynol mewn TGCh?
- Sut mae'r ysgol yn bwydo gwerthusiad i weithgareddau DPP cynlluniedig y dyfodol?

Tystiolaeth:

Polisi ysgol ar gyfer datblygiad proffesiynol. Cynlluniau datblygu yn dangos gweithgareddau DPP. Polisïau a chanllawiau monitro a gwerthuso. Trafodaethau gyda staff a disgyblion. Gwerthusiad o ddatblygiad staff, o werthusiad unigolyn, grwpiau neu ysgol gyfan. Arsylliadau gwersi. Cynlluniau cyllidol am ddatblygiad proffesiynol ar gyfer TGCh.